



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dwyrain Cymru

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop

Rhaglen 2014-2020

Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2017 - Crynodeb



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

1. Cyflwyniad

Dyma grynodeb o drydydd Adroddiad Gweithredu Blyneddol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer Dwyrain Cymru, sy'n cwmpasu blwyddyn adrodd 2017.

Trosolwg

Mae Cymru yn elwa ar ryw €2.4 biliwn o Gyllid yr UE drwy bedair rhaglen Cronfeydd Strwythurol 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys rhyw €407 miliwn drwy Raglen Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) Dwyrain Cymru er mwyn helpu i gyflawni twf economaidd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy a datblygu gweithlu medrus ac ymatebol yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol.

Awdurdod Rheoli'r Rhaglen yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), o fewn Llywodraeth Cymru.

Ynglŷn â'r Rhaglen

Mae Rhaglen ERDF Dwyrain Cymru yn canolbwyntio ar fuddsoddiadau a all helpu i greu swyddi cynaliadwy a thwf economaidd, gan ganolbwyntio'r adnoddau mewn ardaloedd lle gellir cael yr effaith fwyaf. Wrth gyflawni ei hamcanion, mae'r rhaglen yn ystyried ac yn ymgorffori cyfleoedd cymdeithasol ac amgylcheddol, gan adlewyrchu'n llawn Ddatblygiad Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.



Meysydd blaenoriaeth y Rhaglen:

Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

- Gwella llwyddiant sefydliadau ymchwil yng Nghymru gan ddenu cyllid ymchwil cystadleuol a phreifat.
- Cynyddu lefelau masnacheiddio ymchwil datblygu ac arloesedd gan fusnesau Cymru yn ardal y rhaglen.

Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau

- Mynd i'r afael â methiannau'r farchnad i ddarparu cyllid benthyciadau ac ecwiti i BBaChau, gan gynnwys cyfalaf risg.
- Cynyddu nifer a pharhad BBaChau, yn arbennig BBaChau sy'n tyfu'n gyflym (gan gynnwys Mentrau Cymdeithasol).
- Cynyddu twf cyflogaeth mewn BBaChau sydd â photensial i dyfu trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau ar gamau datblygu allweddol.
- Cynyddu nifer y BBaChau sy'n defnyddio ac yn elwa ar fand Eang Cyflym lawn a Gwibgyswllt yng Nghymru.

Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

- Cynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy bach sy'n hyfyw yn ymarferol.
- Gwella effeithlonrwydd ynni yr aelwydydd hynny lle mae'r lefelau uchaf o dlodi tanwydd.

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd

- Gwella'r mynediad i ganolfannau trefol a chyflogaeth allweddol ar drafndiaeth gyhoeddus.
- Cwblhau rhwydweithiau band eang TGCh Cyflym lawn.

Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol


- Sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol
- Rhoi cyngor o ansawdd uchel i bartneriaid allweddol sydd ynghlwm wrth ddylunio a chyflawni gweithrediadau.
- Gwella'r broses o integreiddio buddsoddiadau â chronfeydd ESI eraill a rhaglenni ehangach a arweinir gan y Comisiwn ac sy'n seiliedig ar Sector, ynghyd â'u natur ategol.

Y gyllideb sydd ar gael o dan bob un o Flaenoriaethau'r Rhaglen:

Blaenoriaeth	Cyllideb yr UE	Cyfanswm y Gyllideb ¹
Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arolesedd	€89m	€178m
Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaCh	€40m	€80m
Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni	€22m	€45m
Blaenoriaeth 4: Cysylltedd	€48m	€96m
Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol	€4m	€8m
Cyfanswm sydd ar gael o dan y Rhaglen	€203m	€407m

¹ Swm Cyllideb yr UE wedi'i gyfuno ag arian cyfatebol.

Rhanbarthau Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru ar gyfer 2014-2020



2. Cynnydd y Rhaglen

Trosolwg

Erbyn diwedd 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi €132 miliwn o gyllid yr UE mewn 65 o brosiectau, gan arwain at gyfanswm o €287 miliwn o fuddsoddiad yn Nwyrain Cymru.

Gwnaed cynnydd da i nifer o ddangosyddion y Rhaglen yn ystod 2017, gan gynnwys:


- Cefnogi dros 1,100 o fusnesau a chreu dros 900 o swyddi;
- £29 miliwn o incwm ymchwil yn sgil prosiectau'r UE;
- Roedd Cronfa Fusnes Cymru, a ddarperir gan Fanc Datblygu Cymru, wedi buddsoddi £77 miliwn mewn BBaChau yng Nghymru;
- Rhoddwyd cysylltiad band eang o 30 Mbps neu fwy i 35,400 o safleoedd ychwanegol a signal band eang gwibgyswllt o dros 100 Mbps i dros 39,000 o bobl ychwanegol.

Bydd cynnydd o'i gymharu â nifer o ddangosyddion eraill y Rhaglen, er enghraifft o ran trafndiaeth gyhoeddus, yn cael ei adrodd yn ddiweddarach yn y cyfnod rhaglennu oherwydd natur y gweithgareddau a gyllidir drwy'r Rhaglen hon.

Cynnydd Ariannol

Mae'r siart canlynol yn dangos, fesul Blaenoriaeth, gyfanswm dyraniad buddsoddiad yr UE, faint a fuddsoddwyd mewn prosiectau a faint sydd wedi'i wario gan brosiectau.

Siart 1: Cyllid yr UE: Cyllideb, Cymeradwywyd a Gwariwyd




3. Cynnydd fesul Blaenoriaeth

Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesedd

Mae buddsoddi mewn arloesi ac ymchwil yn helpu i ysgogi cystadleuaeth a chynhyrchiant byd-eang Cymru. Mae cronfeydd yr UE yn cefnogi datblygiad capasiti ymchwil o safon fyd-eang yng Nghymru, trwy ddefnyddio cryfderau presennol i ddenu buddsoddiad ymchwil preifat a chystadleuol pellach. Mae cyllid yr UE hefyd yn cefnogi busnesau i ddatblygu, profi a chreu cynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â charbon isel.

Erbyn diwedd y flwyddyn roedd 84% (€75 miliwn) o gyllid yr UE a oedd ar gael o dan y Flaenoriaeth hon wedi'i fuddsoddi mewn naw prosiect. Roedd hyn yn cynnwys cymeradwyo'r prosiect cyntaf drwy alwad cyllid WEFO yn 2016 ar gyfer cynigion arloesol a all drosi ymchwil ac arloesedd yn gynhyrchion, prosesau a gwasanaethau masnachol newydd a gwell yn llwyddiannus.

Bydd WEFO yn gwneud penderfyniadau cymeradwyo ar y cynigion sy'n weddill a gyflwynwyd trwy'r alwad hon yn 2018. Mae'r galw am gyllid Ymchwil ac Arloesedd yn parhau i fod yn uchel. Ym mis Rhagfyr 2017 lansiwyd galwad arall, yn canolbwyntio ar gyflymu cydweithrediad ymchwil ac arloesedd o safon byd eang, ac mae wedi denu diddordeb sylweddol.



Astudiaeth Achos: CUBRIC – Canolfan Delweddu Prifysgol Caerdydd er Ymchwil yr Ymennydd

Mae'r ganolfan hon yng Nghaerdydd, sy'n werth £44 miliwn, ac wedi'i chefnogi gan £4.6 miliwn o gyllid yr UE, ar fin dod yn un o gyfleusterau blaenaf Ewrop ar gyfer delweddu'r ymennydd.

Mae'r buddsoddiad hwn yn cyfuno arbenigedd blaenllaw y byd mewn mapio'r ymennydd â'r prosesau diweddaraf ar gyfer delweddu ac ysgogi'r ymennydd.

Mae'r ganolfan yn cyflawni swyddogaeth ganolog yn yr ymdrech fyd-eang i gael gwell dealltwriaeth o achosion cyflyrau niwrolegol a seiciatrig megis dementia, sgitsoffrenia a sglerosis ymledol, gan chwilio am atebion hirdymor sy'n hysbysu gweithredoedd yr ymennydd ac yn atal afiechydon. Mae hefyd yn cefnogi'r nod o greu swyddi ymchwil medrus yng Nghymru.

Mae'r adeilad wedi ennill a chyrraedd y rhestr fer ar gyfer llawer o wobrau cenedlaethol ac yn y DU, gan gynnwys:

- Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu yng Nghymru 2017: Enillydd Gwobr Arbennig y Cadeirydd
- Medal Aur Pensaernïaeth Eisteddfod Genedlaethol 2017: Rhestr Fer
- Gwobr Adeilad Ymchwil Gwyddor Bywyd: Enillydd
- Prosiect y Flwyddyn RICS Cymru: Enillydd
- Categori Adeiladau sy'n Ysbrydoli, 2017 Gwobrau Prifysgol y Guardian: Ail

Ym Mis Mai 2017, dathlodd CUBRIC ei chyfraniad cyntaf i brawf clinigol ar gyfer triniaeth Clefyd Huntington. Mae'r prawf yn gweithio gyda chleifion sydd â symptomau cynnar iawn o'r clefyd, a CUBRIC yw un o nifer o safleoedd MRI ledled y DU ac Ewrop sy'n cyfrannu at hyn.

Mae peiriant MRI CUBRIC wedi darparu sgan mwyaf manwl y byd o wifrau mewnol yr ymennydd trwy ddatgelu pa ffibrau sy'n cario prosesau meddwl yr ymennydd. Mae meddygon yn gobeithio y bydd yn helpu i gynyddu dealltwriaeth o amrywiaeth o anhwylderau niwrolegol ac y gellid ei ddefnyddio yn lle profion biopsi ymyrrol.

Mae'r adeilad arloesol hwn wedi'i integreiddio yn ei gymuned ynghanol y ddinas, ac mewn cydweithrediadau â rhwydweithiau ledled Cymru a'r byd.



Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau



Mae cefnogi dechreuad a thwf busnes yn helpu i ddatblygu economi gref a chystadleuol yng Nghymru. Mae cronfeydd yr UE yn darparu cyllid a chymorth i fentrau newydd, yn cefnogi cwmnïau bach a chanolig (gan gynnwys mentrau cymdeithasol) i ehangu a chael mynediad at farchnadoedd newydd, ac yn mynd i'r afael â methiannau yn y farchnad i ddarparu cyllid ad-daladwy i'r busnesau hynny. Mae cyllid yr UE hefyd yn helpu busnesau i wireddu'r fantais gystadleuol a gynigir gan y band eang cyflym iawn sydd ar gael ledled Cymru.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi 92% (€37 miliwn) o gyllid yr UE a oedd ar gael o fewn y Flaenoriaeth hon mewn saith prosiect.

Mae buddsoddiadau o fewn y Flaenoriaeth hon yn ffurfio cyfres integredig o fentrau dan arweiniad Llywodraeth Cymru, Canolfan Cydweithredol Cymru, Banc Datblygu Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, a elwir yn 'Deulu Busnes Cymru'.

Mae Cronfa Busnes Cymru, dan arweiniad Banc Datblygu Cymru, yn perfformio'n dda a bydd asesiad ar ddechrau 2018 yn nodi a oes rhagor o alw a photensial i ehangu darpariaeth y gronfa hon.



Astudiaeth Achos: Cronfa Fusnes Cymru



Mae Cronfa Fusnes Cymru, a reolir gan Fanc Datblygu Cymru, yn cefnogi busnesau bach a chanolig (BBaChau) i gyflymu eu cynlluniau ehangu trwy ddarparu benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti o £50,000 hyd at £2 miliwn.

Cafodd Jöttnar, y cwmni dillad awyr agored technegol sydd a'i bencadlys yng Nghaerdydd, fuddsoddiad saith-ffigwr gan Gronfa Fusnes Cymru, a gefnogir gan gyllid yr UE a chronfa fuddsoddi Venrex yn Llundain.

Dechreuodd Jöttnar ar ei bumed flwyddyn fasnachol trwy lansio'i gasgliad gaeaf o 23 eitem, ar ôl dechrau masnachu â dim mwy na chwe eitem. Cymerodd flwyddyn neu ddwy i sefydlu ei fusnes, ond i'r ddau sylfaenydd, y ffordd orau o gyflawni boddhad proffesiynol a phersonol oedd datblygu busnes yn ymwneud â'r pethau yr oedden nhw'n frwd drostynt.

Dywedodd un o'r sylfaenwyr: "Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r gwaith y byddwn yn ei wneud i ehangu yn ystod y blynyddoedd nesaf wrth i ni gynyddu ein dewis o gynhyrchion a hyrwyddo brand Jöttnar. Rydym yn hapus iawn â'r gefnogaeth a roddwyd i ni gan y gynghrair fuddsoddi a'i gallu i gynnig atebion cyllid hyblyg ar ein cyfer ni."

Mae Banc Datblygu Cymru yn hapus iawn y gallai Cronfa Fusnes Cymru gefnogi'r busnes i greu cynnyrch o safon uchel a brand sy'n datblygu enw da o ran rhagoriaeth yn y farchnad dillad technegol.



Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni

Mae cyllid yr UE a fuddsoddir trwy gyfrwng y flaenoriaeth i wella ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni yn helpu i leihau effaith allyriadau carbon ar yr amgylchedd ac yn helpu i oresgyn tlodi tanwydd. Mae'n helpu i fynd i'r afael â rhwystrau i ddatblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy bach ac i wella effeithlonrwydd ynni yn stoc dai bresennol Cymru lle mae'r tlodi tanwydd mwyaf.

Erbyn diwedd 2017, roedd 20% o gyllid yr UE a oedd ar gael wedi ei fuddsoddi ym mhrosiect Arbed 3 Llywodraeth Cymru er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni mewn tai. Cafwyd galwad am gynlluniau ynni adnewyddadwy bach yn ystod yr haf, wedi'u cefnogi gan weithdai i godi ymwybyddiaeth o gyllid yr UE ar gyfer y math hwn o weithgaredd.

O ganlyniad i ganfyddiadau gwerthuso cynlluniau Arbed blaenorol a phwyslais cynyddol newydd ar dlodi tanwydd, ynghyd â heriau sylweddol wrth ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol bach, mae'n bosibl symud rhywfaint o gyllid y Flaenoriaeth hon i gefnogi meysydd eraill y Rhaglen.

Astudiaeth Achos: ARBED

Mae cynllun Arbed yn rhan o raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru, ac yn darparu cyllid i gefnogi gwelliannau i effeithlonrwydd ynni ar aelwydydd incwm isel yng nghymunedau difreintiedig Cymru.

Mae'r cynllun Arbed yn werth tua £104 miliwn, ac mae'n cynnwys £33 miliwn o gyllid yr UE. Mae £3.6 miliwn o'r cyllid hwn ar gyfer Dwyrain Cymru.

Mae Arbed yn gweithio gyda darparwyr tai cymdeithasol a phartneriaid eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, i wneud ardaloedd difreintiedig Cymru yn fwy ynni-effeithlon. Cyflawnir hyn drwy ôl-osod mesurau megis inswleiddio waliau solet, paneli solar a phympiâu gwres mewn cartrefi.

Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i sicrhau bod atebion hirdymor ar waith i baratoi cartrefi Cymru ar gyfer y dyfodol.

Blaenoriaeth 4: Cysylltedd



Mae datblygu atebion trafndiaeth a gwella cysylltedd digidol yn helpu i ddatblygu busnesau a chymunedau sy'n ffynnu, a hybu cyflogaeth ledled Cymru. Mae cronfeydd yr UE yn gwella trafndiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd trefol, ac yn helpu i gyflawni rhwydweithiau digidol cyflym iawn yng Nghymru.

Erbyn diwedd 2017, roedd €12 miliwn o gyllid yr UE (26% o ddyraniad y Flaenoriaeth) wedi ei fuddsoddi mewn prosiectau band eang Cyflym Iawn a Gwibgyswllt a'r cyntaf o brosiectau Metro De Cymru (Gwelliannau i Orsaf Radyr a Llandaf) dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o gynigion Metro De Cymru ar y gweill, a byddant yn cael eu hystyried i'w cymeradwyo am gyllid yr UE yn ystod 2018.

Mae WEFO hefyd yn ystyried cynnig band eang Cyflym Iawn a Gwibgyswllt arall er mwyn cyflawni signal 100% yn Nwyrain Cymru.

**SUPERFAST
CYFLYMU
CYMRU**

Astudiaeth Achos: Gwelliannau i orsaf Radyr a Llandaf



Gwnaed gwelliannau mewn dwy orsaf cymudo yng Nghaerdydd, sy'n ffurfio rhan o raglen Metro De Cymru, menter drawsnewidiol sy'n helpu pobl i gael mynediad at waith a gwasanaethau eraill.

Mae £1.5 miliwn o gyllid yr UE wedi'i fuddsoddi er mwyn gwella profiadau teithwyr yng ngorsafoedd Radyr a Llandaf trwy greu ardaloedd palmantog newydd, llochesi aros modern a chyfforddus, swyddfeydd tocynnau a chyfleusterau toiledau newydd, cyfleuster parcio a theithio â lle i 187 o geir, a goleuadau a theledu cylch cyfyng gwell.

Gwnaed gwelliannau hefyd i wella hygyrchedd cyfleusterau, gan gynnwys darparu cyfleusterau parcio gwell a mwy diogel ar gyfer ceir a beiciau.

Bydd y gwelliannau'n ategu datblygiadau eraill Metro De Cymru, yn lleihau'r defnydd o geir a thagfeydd traffig ar y llwybrau i ganol Caerdydd, ac yn helpu i wella ansawdd yr aer.



Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol

Mae Cymorth Technegol yn adnodd hanfodol, a ddefnyddir gan WEFO a phartneriaid eraill, i gynorthwyo'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen yn effeithiol.

Erbyn diwedd 2017, roedd €3 miliwn o gyllid yr UE (81% o ddyraniad y Flaenoriaeth) wedi ei fuddsoddi mewn chwe phrosiect. Mae hyn yn cynnwys cymorth refeniw i WEFO ddarparu'r rhaglen yn effeithiol, y tri Thîm Ymgysylltu Rhanbarthol sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru, Canolbarth Cymru a De Ddwyrain Cymru, a chymorth refeniw gan Gorff Cyfryngol ar gyfer y WCVA ac adran ESNR Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fuddsoddi mewn prosiectau presennol yn cael ei ystyried.



Mae rhagor o wybodaeth am Raglen ERDF Ddwyrain Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru [yma](#):



@wefocymru



UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**